**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Gorffennaf 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 04 Awst 2023 |

## PWNC

Eitem 3: MATERION BRYS - TALIADAU I DEULUOEDD SY'N GYMWYS AM BRYDAU YSGOL AM DDIM DROS WYLIAU'R HAF 2023

## PENDERFYNIAD

Penderfynwyd bydd y Cyngor yn ariannu'r gost o ddarparu cynllun 'Darpariaeth Prydau Ysgol am ddim yn ystod y Gwyliau' i deuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros wyliau'r Haf 2023.

Pwysleisiwyd bod y penderfyniad hwn yn berthnasol i'r gwyliau hwn yn unig yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2023 ble ddywedwyd nad oeddent yn ymestyn y cynllun gros gyfnod gwyliau Haf 2023.

Cytunwyd i lunio llythyr i Lywodraeth Cyrmu er mwyn mynegi siomedigaeth y Cabinet nad oedd y cynllun yn cael ei gynnal dros yr Haf ac gan bod y cadarnhad nad oedd hynny'n digwydd wedi cyrraedd yn agos iawn i wyliau'r Haf. Eglurwyd byddai'r llythyr yn cynnwys rhesymau'r Cabinet i ariannu'r cynllun dros yr Haf.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r teuluoedd perthnasol yng Ngwynedd, ac yn wir dros Gymru gyfan wedi arfer cyllidebu ar gyfer prydau i'w plant yn sgil ei fod wedi ei ariannu ers peth amser gan Lywodraeth Cymru. O'r herwydd, teimla'r Adran Addysg na fyddai'n briodol iddynt ddioddef yn gyllidol heb rybudd teg a hithau mor agos at gychwyn gwyliau'r haf.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Gorffennaf 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 04 Awst 2023 |

**PWNC**

Eitem 5: CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG: YMRWYMIADAU O DDYRANIAD GWYNEDD

---

**PENDERFYNIAD**

1. Cytunwyd i ymrwymo cyfanswm o £21,352,966 o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r Cynlluniau a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad yn unol â'r symiau a nodwyd.

2. Awdurdodwyd Pennaeth Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr, i awdurdodi rhyddhau llythyrau cynnig i'r cynlluniau yn ddarostyngedig i gwblhau gwiriadau terfynol a derbyn sêl bendith Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd i unrhyw amodau arbennig.

3. Cytunwyd i sefydlu pedair Cronfa Galluogi (gyda cyfanswm cyllideb o £6,131,000) i ddosbarthu symiau llai o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin i fentrau a chymunedau'r Sir gan awdurdodi gweithredu tair cronfa dan reolaeth Cyngor Gwynedd.

4. Gofynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gynnal ymchwiliad i'r maes gwaith gefnogi mentra cymunedol / cymdeithasol er cynyddu dealltweiaeth y Cyngor a sicrhau fod ymdrechion sefydliadau yn cydweddu ac yn ategu eu gilydd.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yng Nghabinet 24 Ionawr 2023 (Eitem 6), sefydlwyd gweithdrefn ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yng Ngwynedd a phenderfynu ar geisiadau am arian o'r Gronfa o fewn y sir.

Sefydlwyd 'Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd' (yn cynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet Cyllid, y Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymued, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol) i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn cael eu dewis i dderbyn arian.

Nodwyd y byddai'r Aelodau Etholedig ar y Panel yn eithrio eu hunain o drafod cynllun

wedi ei leoli o fewn eu hetholaeth neu ble mae buddiant personol yn y cais. Nodwyd hefyd y dylid ystyried cyfeirio sefyllfa o'r fath i'r Cabinet am benderfyniad er sicrhau priodoldeb a thryloywder.

Yn unol â'r uchod, mae'r Panel wedi penderfynu cyfeirio eu hargymhellion ynglŷn â pha gynlluniau dylid eu dewis i dderbyn arian i sylw'r Cabinet am benderfyniad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd bod gan aleodau'r  Cabinet fuddiant gyda'r eitem hon gan fod y Cabinet yn ymddiriedolwyr Amgueddfa Lloyd George. Cadarnhawyd nad oedd y buddiant hwn yn un sy'n rhagfarnu.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Dafydd Meurig oherwydd ei fod yn Gadeirydd ar fwrdd un o'r ymgeiswyr. Nodwyd bod y buddiant hwn yn un oedd yn rhagfarnu ac bu i'r Cynghorydd adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan y Cynghorydd Ioan Thomas gan fod cysylltiad teuluol iddo yn Brif Weithredwr un o'r ymgeiswyr. Nodwyd bod y buddiant hwn yn un sy'n rhagfarnu ac bu i'r Cynghorydd adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

Derbwyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) oherwydd cysylltiad teuluol gyda un o'r ymgeisgwyr. Nodwyd bod y buddiant hwn yn un sy'n rhagfarnu ac bu i'r Cynghorydd adael y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd gyda Swyddogion Statudol, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Gorffennaf 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 04 Awst 2023 |

**PWNC**

Eitem 6: PENNAETH CYNORTHWYOL TRAFNIDIAETH.

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd fod y Cyngor yn rhyddhau £265,000 o'r gronfa trawsffurfio i gyllido swydd Pennaeth Cynorthwyol Trafnidiaeth am gyfnod o 3 blynedd i gychwyn.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol â'r drefn i gymeradwyo gwariant o'r Gronfa Trawsffurfo, mae gofyn i unrhyw gais i'r gronfa sydd uwchlaw £100,000 dderbyn cymeradwyaeth ffurfiol y Cabinet.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 20 Gorffennaf 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 04 Awst 2023 |

**PWNC**

Eitem 8: CANOLFAN IECHYD A LLES BANGOR

---

**PENDERFYNIAD**

1. Cefnogwyd y cyfeiriad ynglŷn a sefydlu Canolfan Iechyd a Lles Bangor ac awdurdodi Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad gyda Phennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Pennaeth Cyllid i barhau gyda'r trafodaethau ac adnodd ymhellach i'r Cabinet yn unol a'r rhaglen amlinellol.

2. Awdurdodwyd i'r Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad gyda Phennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol i gwblhau Cytundeb Opsiwn ar gyfer rhannau o'r Ganolfan Menai, Bangor yn unol â thelerau i'w pennu gan Reolwr Stadau'r Cyngor.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I warchod unedau perthnasol o Ganolfan Menai yn ystod cyfnod rhagbaratoi'r cynllun, gyda'r bwriad o'i brydlesu pan fydd Cynllun Canolfan Iechyd a Lles Bangor wedi ei gymeradwyo a phecyn ariannol cyflawn wedi ei gadarnhau.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---